**Lesley Griffiths AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P-LG-0934-17

Aelodau'r Gynulliad

9 Mawrth 2017

Annwyl cydweithiwr

**Ymweliad â Dubai, Emiraethau Arabaidd Unedig (UAE), Chwefror/Mawrth 2017**

Un o ymrwymiadau allweddol *Symud Cymru Ymlaen* yw sbarduno gwelliannau i'n heconomi a chodi proffil Cymru trwy'r byd fel lle ardderchog i ddod i wneud busnes, i ymweld ag e ac i fuddsoddi, astudio a byw ynddo.

Wythnos ddiwethaf, bues yn Dubai, yr Emiraethau Arabaidd Unedig (UAE), i roi'r ymrwymiad hwn ar waith. Cynhaliais gyfres o weithgareddau i hyrwyddo masnach, cydweithio addysgol a chreadigol a buddsoddi yn y rhanbarth strategol bwysig hwn, fel rhan o ddathliadau Gŵyl Ddewi 2017 Llywodraeth Cymru.

Mae Cymru'n wlad fasnachu ac rydyn ni'n cefnogi'n hallforwyr. Ymwelais â sioe fwyd Gulfood ac ymuno â 25 o gynhyrchwyr bwyd a diod gorau Cymru, y mwyaf erioed, sy'n arddangos yn y sioe, un o arddangosfeydd bwyd a diod blynyddol mwya'r byd.

Mae ymweliadau a sioeau masnach o'r fath yn gyfle i hyrwyddo sector bwyd a diod Cymru ar lwyfan ryngwladol ac i helpu cynhyrchwyr Cymru i feithrin cysylltiadau busnes newydd a gwerthu i farchnadoedd newydd proffidiol. Yn ystod fy ymweliad, cefais y fraint o gyhoeddi bod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £2.4m i sicrhau bod gan Gymru gynrychiolaeth dda mewn ymweliadau a ffeiriau bwyd a diod amlwg o gwmpas y byd dros y ddwy flynedd nesaf. Bydd y buddsoddiad mawr hwn yn hwb arall i'n hymdrechion i daro'n targed uchelgeisiol o 30% o dyfiant yn y sector erbyn 2020, yn unol â Tuag at Dwf Cynaliadwy. Rydyn ni eisoes fwy na hanner ffordd at ei daro.

Mae Dubai yn paratoi ar gyfer ei digwyddiad mawr ei hun pan fydd yn cynnal yr Expo Byd nesaf yn 2020, gan ddod â mwy na 180 o wledydd a chynulleidfa ryngwladol o 25 miliwn o ymwelwyr ynghyd. Gyda dirprwyaeth fasnach aml-sector o Gymru, ymwelais â'r safle a chael hanes y cynlluniau ar gyfer datblygu'r Expo a'r cyfleoedd rhif y gwlith a gynigir ar gyfer busnesau. Mae gan ein swyddfa yn Dubai gysylltiadau cryf â phrif drefnwyr Expo 2020 a bydd yn parhau i hyrwyddo a chryfhau'r cyfleoedd y mae'r prosiect hwn yn eu cynnig i fusnesau Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r cynlluniau ar gyfer Expo 2020 yn rhan o brosiect ehangach i ddatblygu ardal anferth newydd o'r enw De Dubai. Cefais gyfarfod â Thîm Uwch yr Arweinwyr ynghylch eu cynlluniau ar gyfer y prosiect trefol blaenllaw hwn fydd yn darparu dinas gynlluniedig 145km sg o faint a fydd yn cynnal poblogaeth o un miliwn o bobl, yn creu 500,000 o swyddi ac yn cynnwys maes awyr mwya'r byd (Maes Awyr Rhyngwladol Al Maktoum).

Yn gwmni imi ar yr ymweliad oedd Cadeirydd, Is-ganghellor ac eraill o Brifysgol De Cymru sydd eisoes wedi dechrau gweithio gyda Llywodraeth Dubai i ddatblygu cynlluniau i sefydlu Canolfan Ragoriaeth/Academi Awyrennau newydd a rhedeg rhaglen hyfforddi o safon byd ar gynnal a chadw awyrennau yn y maes awyr newydd. Testun balchder oedd gweld prifysgol o Gymru â rhan flaenllaw yn y prosiect a gweld y prosiect yn mynd at y cam nesaf gyda llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Prifysgol De Cymru, y Gulf Aviation Academy (GAA) a Falcon Aviation. Mae'r prosiect hwn yn enghraifft ragorol o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wneud economi Cymru mor rhyngwladol â phosib, gan gydnabod rhan hanfodol ein sefydliadau addysg uwch ardderchog yn hyn. Mae'r hyb awyrennau rhyngwladol yn Ne Dubai ar drywydd croesawu'i fyfyrwyr cyntaf yn 2018.

Yn y tair blynedd diwethaf, mae Cymru wedi denu mwy o fewnfuddsoddi nag erioed. Yn ystod fy ymweliad, cefais y pleser o gwrdd â pherchenogion Hotpack Packaging Industries o Dubai sydd yn ystyried sefydlu canolfan gynhyrchu yng Ngogledd Cymru. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n wrthi'n gweithio gyda'r cwmni i'w helpu â'u cynlluniau ac i baratoi'r safle.

Gwnaeth Gŵyl Ddewi roi cyfle delfrydol inni ddathlu'n pobl, hanes, iaith, diwylliant, bwyd a diod a busnesau arloesol. Roeddwn yn falch iawn felly o'r cyfle i gynnal 'Derbyniad Busnes a Diwylliant Cymru' ar gyfer dros 250 o westeion ar y Lawnt Brenhinol yn Llysgenhadaeth Prydain gyda chymorth ein Llysgennad i'r UAE, Philip Parham. Bu'r derbyniad yn gyfle i ddangos bwyd a diod o Gymru, gan gynnwys arddangosfa goginio gyda'r cogydd enwog, Gary Rhodes, gan ddefnyddio cynnyrch o Gymru; arddangosfa o gwmnïau o Gymru sydd â rhyw fudd yn yr UAE; arddangosfa o geir Aston Martin i danlinellu'u buddsoddiad mawr yng Nghymru a phrofi bod Cymru'n lle rhagorol i fuddsoddi ynddo; a pherfformiadau gan y cwmni byd-enwog, Cwmni Opera Cymru (WNO).

Mae'r WNO wrthi'n perfformio yn y Tŷ Opera newydd yn Dubai, ac yn ystod fy ymweliad, ymunais â'r gweithgareddau maes gyda phlant ysgol lleol. Cefais fynd hefyd i noson gyntaf eu perfformiad o Madama Butterfly yn y Tŷ Opera. Bu'r WNO yn gweithio'n ddiflino i chwifio'r faner dros Gymru yn yr UAE gan ddangos eu bod yn gwmni celf o fri rhyngwladol ac yn llysgennad diwylliannol rhagorol dros Gymru. Eu perfformiadau yn Dubai yw un o elfennau uchaf eu proffil Blwyddyn Cydweithio Creadigol y DU/UAE 2017.

Ar y diwrnod olaf, anerchais Ddawns Gŵyl Ddewi Clwb Cymdeithasol Cymry Dubai lle roedd dros 200 o westeion wedi dod ynghyd. Pwysleisiais bwysigrwydd y Clwb a chymdeithasau Cymreig eraill o gwmpas y byd, am barhau i gynrychioli a rhoi amlygrwydd i gryfderau Cymru fel partner strategol ar gyfer masnachu, buddsoddi, a diwylliant ac addysg.

Mae'r UAE, dros y blynyddoedd, wedi tyfu'n bartner allweddol i Gymru ac mae'r twf a'r datblygu trawiadol a welwyd yno wedi cynnig llawer o gyfleoedd i Gymru.  Daeth yn amlwg o'm hymweliad bod busnesau, sefydliadau addysgol a diwylliannol, ynghyd â'r Llywodraeth, yn geffylau blaen o ran meithrin partneriaethau yn y rhanbarth.  Mae'n bwysig bod Cymru'n parhau i ddatblygu'r cysylltiadau hyn ac yn parhau yn genedl groesawgar sydd â'i golygon ar orwelion y byd.



**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs